Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2023 – Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4056A2024

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Adroddiad manwl

Archwiliad o'r cyfrifon 7

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau 9

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 15

Atodiad 2 – ffi archwilio 17

Atodiad 3 – risgiau archwilio cyfrifon 18

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau fy ngwaith archwilio yn 2023 yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Senedd;
- bodloni fy hun bod gwariant ac incwm wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd ac yn unol ag awdurdodau; a
- bodloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Adroddaf ar fy nghanfyddiadau cyffredinol o dan y penawdau canlynol:

- Archwiliad o'r cyfrifon
- Trefniadau er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

3 Digwyddodd y gwaith archwilio eleni ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn dal i ymateb i etifeddiaeth pandemig COVID-19, wrth iddynt geisio adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol sydd wedi cronni yn y system yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, roedd cyrff iechyd hefyd yn ymdrin â chyfres ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder yn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Dyluniwyd fy rhaglen waith, felly, er mwyn sicrhau pobl Cymru yn y modd gorau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda.

4 Ceisiais sicrhau nad oedd fy ngwaith yn llesteirio cyrff cyhoeddus wrth iddynt fynd i'r afael â'r heriau ôl-bandemig y maent yn eu hwynebu, gan sicrhau ei fod yn parhau i gefnogi gwaith craffu a dysgu. Parhawyd i weithio ac ymgysylltu o bell pan fo hynny'n bosibl drwy ddefnyddio technoleg, ond ailddechreuodd rhywfaint o waith archwilio ar y safle fel y bo'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny. Mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith ar ein modd o gyflawni gwaith archwilio ond mae hefyd wedi helpu i ymgorffori newidiadau cadarnhaol yn ein ffyrdd o weithio.

5 Mae cyflwyno fy ngwaith archwiliad o gyfrifon wedi parhau o bell yn bennaf. Diweddarwyd safonau archwilio ar gyfer archwiliadau 2022-23 a arweiniodd at rai newidiadau sylweddol yn ein dull gweithredu. Trafodwyd y newidiadau penodol yn fanwl yn fy Nghynllun Archwilio 2023. Estynnwyd y dyddiad cau cyflwyno cyfrifon archwiliedig i 31 Gorffennaf 2023. Ardystiwyd y datganiadau ariannol ar 28 Gorffennaf 2023, sy'n golygu bod y dyddiad cau wedi'i fodloni. Mae hyn yn adlewyrchu ymdrech gyfunol fawr gan fy staff a swyddogion yr Ymddiriedolaeth.

6 Addasais hefyd ganolbwynt a dull fy ngwaith archwilio perfformiad i sicrhau ei berthnasedd yng nghyd-destun yr heriau ôl-bandemig sy'n wynebu'r GIG yng

Nghymru. Rwyf wedi cyhoeddi Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG sy'n dwyn ynghyd ystod o fetrigau a thueddiadau i helpu i ddangos yr heriau y mae angen mynd i'r afael â nhw'n lleol ac yn genedlaethol. Mae'r adroddiad briffio ar ddata yn ategu fy asesiadau o sut mae trefniadau cynllunio'r gweithlu cyrff unigol y GIG yn eu helpu i fynd i'r afael yn effeithiol â heriau presennol a dyfodol y gweithlu. Mae fy nhimau archwilio lleol wedi gwneud sylwadau ar drefniadau llywodraethu cyrff unigol, yn ogystal â sut maent yn ymateb i heriau a risgiau lleol penodol. Mae fy ngwaith archwilio perfformiad yn cael ei wneud yn unol â safonau archwilio INTOSAI[1].

7 Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb o'r materion a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth mewn adroddiadau manylach eleni (gweler **Atodiad 1**). Rwyf hefyd yn cynnwys crynodeb o statws y gwaith sy'n dal i fynd rhagddo, ond nid yw wedi ei gwblhau eto.

8 Mae **Atodiad 2** yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi er mwyn talu am y costau o ymgymryd â fy ngwaith, o'u cymharu â'r ffi wreiddiol a nodir yng Nghynllun Archwilio 2023.

9 Mae **Atodiad 3** yn nodi'r risgiau archwilio cyfrifon a nodir yn fy Nghynllun Archwilio 2023 a sut yr ymdrinnir â nhw drwy'r archwiliad.

10 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn. Fe'i cyflwynwyd gennym i'r Pwyllgor Archwilio ar 30 Ebrill 2024. Bydd y Bwrdd yn cael yr adroddiad mewn cyfarfod Bwrdd diweddarach a bydd pob aelod yn cael copi. Rwy'n annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i wneud trefniadau i'w gyhoeddi'n ehangach. Byddaf yn gwneud yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried.

11 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Negeseuon allweddol

## Archwiliad o'r cyfrifon

12 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn berthnasol gywir, ac wedi cyhoeddi barn archwilio ddiamod arnynt. Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (fel yr oeddent yn berthnasol i'm harchwiliad), ond tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion yn fy Adroddiad Archwilio'r Cyfrifon terfynol.

[1]Mae INTOSAI (International Organisation of Supreme Audit Institutions) yn sefydliad ymbarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad. Mae'n sefydliad anllywodraethol gyda statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol (ECOSOC) y Cenhedloedd Unedig.

13 Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol eraill yng nghyfrifon 2022-23 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn cyd-fynd ag awdurdodau neu nad ddefnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2022-23 yr Ymddiriedolaeth.

14 Ni chyflwynais unrhyw adroddiad o sylwedd ochr yn ochr â'm barn eleni gan nad oedd unrhyw faterion i'w hadrodd.

## Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth wrth ddefnyddio adnoddau

15 Mae fy rhaglen o waith Archwilio Perfformiad wedi fy arwain i ddod i'r casgliadau canlynol:

- nododd fy adroddiad briffio ar ddata gweithlu cenedlaethol heriau ar lefel Cymru gyfan gan gynnwys, er gwaethaf gweithlu GIG sy'n tyfu, bod swyddi gwag yn parhau mewn meysydd allweddol, lefelau salwch a throsiant staff uchel yn arwain at orddibyniaeth ar staffio asiantaeth[2]. Yn fwy cadarnhaol, mae GIG Cymru yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.
- mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau priodol i liniaru heriau gweithlu presennol ac egluro ei gweledigaeth strategol hirdymor, ond mae sicrhau adnoddau yn y tymor canolig i'r hirdymor yn rhwystr sylweddol a pharhaus.
- mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos pwyslais ar wella ei threfniadau ar gyfer llywodraethu, cynllunio a chyllid. Fodd bynnag, mae pwysau gweithredu sylweddol, aneffeithlonrwydd wedi'i achosi gan oedi cyn trosglwyddo, dibyniaeth ar arbedion anghylchol a diffyg cyllid ar gael yn cyfyngu ei gallu i drawsnewid gwasanaethau.

16 Mae'r canfyddiadau hyn yn cael mwy o sylw yn yr adrannau canlynol.

[2] I'r Ymddiriedolaeth yn benodol, nodwyd bod costau asiantaeth uwch yn 2021-22 oherwydd ffactorau yn ymwneud â'r pandemig a phwysau ar y system, fel staffio ar gyfer cleifion cohort y tu allan i rai Adrannau Achosion Brys, ac mae defnydd wedi lleihau ers hynny.

# Adroddiad manwl

## Archwiliad o'r cyfrifon

17 Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos y stiwardiaeth o arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net, costau gweithredu net, enillion a'i golledion, a llifoedd arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ar eu cywirdeb a'r defnydd priodol ('rheoleidd-dra') o arian cyhoeddus.

18 Gwnaeth fy Nghynllun Archwilio 2023 nodi'r risgiau allweddol ar gyfer archwiliad y cyfrifon 2022-23 a manylir ar y rhain ynghyd â sut yr ymdrinnir â nhw yn **Arddangosyn 4: Atodiad 3**.

19 Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

## Cywirdeb a pharatoi cyfrifon 2022-23

20 Gwnes ddod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol ac yn sylweddol gywir a chyhoeddais farn archwilio ddiamod arnynt. Ni wnaeth fy ngwaith nodi unrhyw wendidau sylweddol mewn rheolaethau mewnol (fel sy'n berthnasol i fy archwiliad), ond tynnais sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio at rai materion.

21 Lluniwyd y cyfrifon heb eu harchwilio ar gyfer yr archwiliad yn unol ag amserlenni a gytunwyd, a dyfarnwyd bod ansawdd papurau gweithio yn gryf yn gyffredinol.

22 Mae'n ofynnol i mi adrodd am faterion sy'n codi o fy ngwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu (y Pwyllgor Archwilio), i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Adroddodd fy Arweinydd Ymgysylltiad Archwilio Ariannol y materion hyn ar 25 Gorffennaf 2023. Mae **Arddangosyn 1** yn crynhoi'r materion allweddol a nodir yn yr adroddiad hwnnw.

**Arddangosyn 1: materion a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio**

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau heb eu cywiro | Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau o'r fath. |
| Camddatganiadau wedi'u cywiro | Nodwyd nifer o gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr yn y cyfrifon terfynol. Ni effeithiodd yr un o'r cywiriadau a godwyd y gwarged diwedd blwyddyn a ddatgelwyd o £62,000. |

| Mater | Sylwadau’r archwilwyr |
|---|---|
| Materion pwysig eraill | Adroddwyd dau fater gennym at sylw’r Pwyllgor Archwilio:<br>• cadarnhad na fyddai unrhyw farn archwilio amodol ar gyfer 2022-23 o ran y cyfeiriad Gweinidogol yn ymwneud â rhwymedigaethau treth pensiwn staff uwch y GIG; a<br>• nodi dau drafodiad gwariant werth £110,000 a gofnodwyd yn anghywir yn 2022-23 yn hytrach na 2023-24. |

23 Cynhaliais adolygiad hefyd o ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Penderfynais fod yr wybodaeth cydgrynhoi y gwrthbarti yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2023 a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau’r Trysorlys.

24 Mae fy archwiliad ar wahân o’r cyfrifon cronfeydd elusennol wedi’i gwblhau ac adroddwyd y canfyddiadau terfynol i’r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ar 18 Ionawr 2024. Ardystiwyd y cyfrifon terfynol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar 29 Ionawr, gan alluogi’r cyfrifon i gael eu cyflwyno cyn dyddiad cau statudol y Comisiwn Elusennau ar 31 Ionawr.

## Rheoleidd-dra trafodiadau ariannol

25 Mae’n rhaid i drafodiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth fod yn unol â’r awdurdodau sy’n eu llywodraethu. Mae’n rhaid bod ganddi’r pwerau i dderbyn incwm ac i wario arian. Mae ein gwaith yn adolygu’r pwerau hyn ac yn profi er mwyn sicrhau nad oes elfennau perthnasol o incwm na gwariant nad oes gan yr Ymddiriedolaeth y pwerau i’w derbyn na’u hysgwyddo.

26 Ni nodais unrhyw drafodiadau ariannol perthnasol yng nghyfrifon 2022-23 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn unol ag awdurdodau neu na ddefnyddiwyd at y diben a fwriadwyd, ac felly rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ar reoleidd-dra’r trafodiadau ariannol yng nghyfrifon 2022-23 yr Ymddiriedolaeth.

27 Ni chyflwynais unrhyw adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon ochr yn ochr â’m barn eleni gan nad oedd unrhyw faterion i’w hadrodd.

28 Mae gennyf y pŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth, ochr yn ochr â fy marn, lle rwyf eisiau amlygu materion. Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn methu yn un o’i dyletswyddau ariannol – i fantoli’r cyfrifon dros gyfnod o dair blynedd a bod â chynllun tair blynedd wedi’i gymeradwyo ar waith – neu fod fy marn yn amodol, byddaf yn cyhoeddi adroddiad o sylwedd.

29 Fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth gyflawni ei dwy dyletswydd ariannol a nodir yn y sefyllfa ariannol yn fwy manwl gan gynnwys gwarged/diffyg yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa tair blynedd, ac roedd fy marnau yn ddiamod, felly ni chyflwynais adroddiad o'r fath.

# Trefniadau ar gyfer sicrhau defnyddio adnoddau'n effeithiol, effeithlon ac yn ddarbodus

30 Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol ar waith i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf i fy helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- cyhoeddi Adroddiad Briffio Data Gweithlu'r GIG sy'n dod ag amrywiaeth o fetrigau a thueddiadau at ei gilydd i helpu i ddangos yr heriau y mae angen ymdrin â nhw'n lleol ac yn genedlaethol;
- adolygu effeithiolrwydd trefniadau cynllunio'r gweithlu yr Ymddiriedolaeth; a
- chynnal asesiad strwythuredig o drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, effeithiol ac yn ddarbodus.

31 Mae fy nghasgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u nodi isod.

## Adroddiad briffio ar ddata ynghylch gweithlu'r GIG

32 Ym mis Medi 2023, cyhoeddais adroddiad briffio ar ddata sy'n nodi data allweddol ynghylch y gweithlu ar gyfer GIG Cymru. Amlygodd fy sesiwn friffio dwf parhaus GIG Cymru, a adlewyrchodd, mewn rhai achosion, nad yw'r twf yn lefelau staff, yn enwedig mewn nyrsio a rhai arbenigeddau meddygol, wedi ateb y galw cynyddol.

33 Mae'n amlwg bod y pandemig wedi effeithio ar staff ac mae'r gweithlu o dan bwysau sylweddol o hyd. Mae'r tueddiadau allweddol diweddar yn dangos mwy o drosiant staff, absenoldeb salwch a swyddi gwag. Mae hyn wedi arwain at fwy o ddibyniaeth ar staff asiantaethau allanol ac yn nodedig costau asiantaeth uwch i £325 miliwn yn 2022-23[3]. Mae Cymru'n tyfu ei gweithlu ei hun, gyda mwy o nyrsys a meddygon yn hyfforddi, ac eto er gwaethaf hyn, mae dal dibyniaeth fawr ar staff meddygol o'r tu allan i Gymru, gan ddangos bod angen i sicrhau bod comisiynu addysg yn gydnaws â'r galw, ond hefyd bod cyrff iechyd yn gallu recriwtio digon o raddedigion, unwaith eu bod wedi cwblhau eu hyfforddiant. Mae fy adroddiad hefyd

[3] I'r Ymddiriedolaeth yn benodol, nodwyd bod costau asiantaeth uwch yn 2021-22 oherwydd ffactorau yn ymwneud â'r pandemig a phwysau ar y system, fel staffio ar gyfer cleifion cohort y tu allan i rai Adrannau Achosion Brys, ac mae defnydd wedi lleihau ers hynny.

yn tynnu sylw at rai tueddiadau cadarnhaol sy'n dangos bod y GIG yn dod yn gyflogwr mwy hyblyg a chyfartal.

## Trefniadau cynllunio'r gweithlu

34 Archwiliodd fy adolygiad a oes gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol i gefnogi cynllunio'r gweithlu. Roedd yn canolbwyntio ar gynllunio strategol a gweithredol y gweithlu, sut mae'n defnyddio gwybodaeth am y gweithlu a sut mae'n gweithio gyda'i rhanddeiliaid i ddatblygu datrysiadau. Roedd y gwaith hefyd yn ystyried capasiti a gallu'r sefydliad i nodi a mynd i'r afael â heriau allweddol y gweithlu yn y tymor byr a'r tymor hir, a sut mae'n monitro a yw ei ddull gweithredu'n gwneud gwahaniaeth.

35 Canfu fy ngwaith fod **yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau effeithiol i liniaru heriau gweithlu presennol ac egluro ei gweledigaeth strategaeth hirdymor, ond mae sicrhau adnoddau tymor canolig i dymor hwy yn rhwystr sylweddol a pharhaus**.

36 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei dull gweithlu strategol ac yn datblygu ei chynllun gweithlu strategol y mae'n disgwyl y bydd wedi'i gwblhau erbyn mis Ebrill 2024. Mae'n defnyddio data gweithlu yn briodol i hysbysu penderfyniadau gweithlu allweddol, ond mae angen i'r Ymddiriedolaeth integreiddio systemau TG yn well i alluogi dadansoddiad o ddata gweithlu. Er bod y berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i phartneriaid undeb llafur yn anodd weithiau, mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu'n effeithiol â'i staff, rhanddeiliaid ehangach a chomisiynwyr i ddatblygu atebion gweithlu.

37 Mae'r Ymddiriedolaeth yn buddsoddi mewn capasiti a gallu cynllunio'r gweithlu ac yn darparu hyfforddiant i reolwyr, ond bydd angen iddi sicrhau bod ei hymdrechion yn sicrhau'r buddion a fwriedir. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi costio ei chynllun gweithlu trwy ddatblygu ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, mae'n debygol o fod angen adnoddau ychwanegol sylweddol i gyflawni'n llawn y lefel o drawsnewid gwasanaeth a nodir yn ei gweledigaeth strategol. Ar adeg y gwaith maes, roedd yr Ymddiriedolaeth yn gweithio i nodi'r gofynion gweithlu penodol i wireddu ei gweledigaeth a'r cyllid ategol y bydd angen iddi ddod o hyd iddo. Mae dod o hyd i'r cyllid hwn yn debygol o fod yn her sylweddol.

38 Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn derbyn adroddiadau gweithlu rheolaidd a chynhwysfawr. Er bod yr adroddiadau hyn yn aml yn weithredol, ceir pwyslais sy'n gwella ar gynnydd nodau strategol yr Ymddiriedolaeth yn y Cynllun Pobl a Diwylliant. Mae trosolwg allanol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys[4] yn sicrhau bod y comisiynwyr yn deall pwysau gweithlu gwasanaeth yr

[4] Cydbwyllgor o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru yw'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys, â chyfrifoldeb am gynllunio a sicrhau gwasanaethau ambiwlans digonol ar gyfer y boblogaeth.

Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn helpu i gysoni disgwyliadau'r comisiynwyr gyda'r cyllid a'r adnodd gweithlu sydd ar gael.

## Asesiad strwythuredig

39 Cynhaliwyd fy ngwaith asesu strwythuredig yn 2023 ar adeg pan oedd cyrff y GIG yn parhau i ymdrin ag etifeddiaeth pandemig COVID-19 o ran adfer a thrawsnewid gwasanaethau ac ymateb i'r galw ychwanegol yn y system a wnaeth gronni yn ystod y pandemig. Ar ben hynny, roeddent hefyd yn ymdrin â chyfres ehangach o heriau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng costau byw, yr argyfwng hinsawdd, pwysau chwyddiant ar gyllid cyhoeddus, prinder yn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio.

40 Canolbwyntiodd fy nhîm ar drefniadau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus, gan ganolbwyntio'n benodol ar: dryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd; systemau sicrwydd corfforaethol; ymagwedd gorfforaethol tuag at gynllunio; ac agwedd gorfforaethol tuag at reoli adnoddau ariannol. Gwnaeth archwilwyr dalu sylw hefyd i'r cynnydd a wnaed i ymdrin ag argymhellion blaenorol.

41 Ar y cyfan, canfuais fod **yr Ymddiriedolaeth yn dangos pwyslais ar wella ei threfniadau ar gyfer llywodraethu, cynllunio a chyllid. Fodd bynnag, mae pwysau gweithredu sylweddol, aneffeithlonrwydd wedi'i archosi gan oediadau cyn trosglwyddo, dibyniaeth ar arbedion anghylchol a diffyg cyllid ychwanegol yn cyfyngu ar ei gallu i drawsnewid gwasanaethau**.

### Tryloywder, effeithiolrwydd a chydlyniant y Bwrdd

42 Ystyriodd fy ngwaith a yw Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol ac yn dryloyw. Talais sylw arbennig i:

- Tryloywder cyhoeddus o fusnes y Bwrdd
- Trefniadau i gefnogi cynnal busnes y Bwrdd
- Strwythur y Bwrdd a'r pwyllgor, busnes, cyfarfodydd a llif sicrwydd
- Ymrwymiad y Bwrdd i glywed gan staff, defnyddwyr, rhanddeiliaid eraill
- Sgiliau Bwrdd, profiadau, cydlyniant ac ymrwymiad i wella

43 Canfu fy ngwaith **fod trefniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau yn effeithiol, ond mae gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol o bolisïau yn disgwyl i gael eu hadolygu, a cheir lle i wneud rhai gwelliannau i feysydd eraill o lywodraethu gweinyddol**.

44 Mae'r Bwrdd yn dal i fod wedi ymrwymo i dryloywder cyhoeddus. Mae cyfarfodydd yn cael eu ffrydio'n fyw, ceir cyfleoedd i'r cyhoedd ofyn cwestinau cyn cyfarfodydd, ac adroddir camau gweithredu cyfarfodydd preifat/caeedig mewn papurau Bwrdd cyhoeddus. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi'r rhan fwyaf o bapurau cyfarfod cyn cyfarfodydd. Fodd bynnag, i gynyddu tryloywder busnes y Bwrdd ymhellach, dylai'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi cofnodion Bwrdd a phwyllgor heb eu cadarnhau

yn gynharach, a dylid darparu fersiwn ysgrifenedig o Adroddiad y Cadeirydd. Er bod gan yr Ymddiriedolaeth ôl-groniad sylweddol o bolisïau sy'n hwyr, mae wedi datblygu cynllun realistig ac wedi'i flaenoriaethu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

45 Mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn gweithredu'n dda, wedi'u cefnogi gan gylch gorchwyl cyfredol ac amlinelliad o'r agenda ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae cyfarfodydd wedi'u cadeirio'n dda, ac mae'r aelodau yn gwneud cyfraniad ystyrlon i gefnogi, craffu, a cheisio sicrwydd. Bydd rhai newidiadau i aelodau y Bwrdd dros y misoedd nesaf ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau rhesymol a ystyriwyd yn ofalus i reoli'r newidiadau hyn. Mae papurau o safon dda yn gyffredinol er bod gwaith parhaus i annog cyflwyniadau mwy cryno o risgiau a materion allweddol.

## Systemau sicrwydd corfforaethol

46 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- goruchwylio risgiau strategol a chorfforaethol;
- goruchwylio perfformiad sefydliadol;
- goruchwylio ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a
- thracio argymhellion.

47 Canfu fy ngwaith fod **yr Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei systemau sicrwydd corfforaethol, ond mae mwy i'w wneud mewn meysydd allweddol gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac ymdrin â phryderon a digwyddiadau. Mae trefniadau ar gyfer goruchwylio a rheoli perfformiad yn rhesymol yng nghyd-destun sefyllfa weithredu eithriadol o heriol oherwydd galw cynyddol a phwysau ehangach ar y system**.

48 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau rhesymol ar gyfer diweddaru, rheoli a goruchwylio ei risgiau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i gydweithredu â phartneriaid i sefydlu dealltwriaeth ac ymateb ar y cyd i rai o'r risgiau lefel uchaf gan fod y rhain yn aml y tu allan i reolaeth uniongyrchol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal trefniadau rheoli perfformiad rhesymol, ond mae perfformiad gweithredu yn dal i fod yn eithriadol o heriol oherwydd galw cynyddol a phwysau ehangach ar y system sy'n arwain at oediadau parhaus a sylweddol wrth drosglwyddo mewn llawer o Adrannau Achosion Brys a'r aneffeithlonrwydd canlyniadol sy'n cael ei greu gan amser a gollir i oediadau trosglwyddo.

49 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau cadarnhaol i wella ei threfniadau llywodraethu ansawdd, gan gynnwys gwaith i baratoi ar gyfer y gofynion o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (2020) newydd. Fodd bynnag, mae prydlondeb ymatebion i bryderon wedi gwaethygu oherwydd galw cynyddol a phroblemau capasiti. Mae trefniadau ar gyfer olrhain argymhellion archwilio yn cryfhau, â mwy o eglurder ynghylch cwblhau camau a'r effaith a sicrhawyd.

## Dull corfforaethol o gynllunio

50 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o gynllunio. Gwnes i dalu sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cynhyrchu strategaethau a chynlluniau corfforaethol, gan gynnwys y Cynllun Tymor Canolig Integredig a goruchwylio'u datblygiad; a
- goruchwylio'r gwaith o gyflawni strategaethau a chynlluniau corfforaethol.

51 Canfu fy ngwaith fod gan **yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol da o ddatblygu strategaethau a chynlluniau, ond nad yw cynlluniau yn cynnwys cerrig milltir CAMPUS[5], ac nid yr adroddiadau cyflawni yn cynnig digon o eglurder ynghylch a yw canlyniadau a fwriedir yn cael eu sicrhau**.

52 Mae trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynhyrchu a goruchwylio datblygiad strategaethau a chynlluniau yn rhesymol. Mae ei Chynllun Tymor Canolig Integredig 2023-2026 yn cyd-fynd yn dda â'i gweledigaeth hirdymor a derbyniodd gymeradwyaeth eto gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae angen i'r Ymddiriedolaeth gryfhau ei dull o adrodd ar gynnydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig trwy gynyddu'r pwyslais ar ganlyniadau ac effaith a sicrhawyd, yn hytrach na chanolbwyntio ar weithgarwch/camau a gyflawnwyd yn unig. Dylai hefyd sicrhau bod yr holl gamau a nodir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn CAMPUS â chanlyniadau mesuradwy a cherrig milltir cyflawni eglur.

## Dull corfforaethol o reoli adnoddau ariannol

53 Ystyriodd fy ngwaith a oes gan yr Ymddiriedolaeth ddull corfforaethol cadarn o reoli ei adnoddau ariannol. Talais sylw arbennig i drefniadau'r sefydliad ar gyfer:

- cyflawni ei amcanion ariannol;
- goruchwylio cynllunio ariannol;
- goruchwylio rheolaeth ariannol; a
- goruchwylio perfformiad ariannol.

54 Canfu fy ngwaith fod **yr Ymddiriedolaeth yn dangos perfformiad ariannol cryf, dull da o gynllunio ariannol a goruchwyliaeth Bwrdd a phwyllgorau priodol. Fodd bynnag, gallai'r ddibyniaeth ar gynlluniau arbedion anghylchol, aneffeithlonrwydd gweithredu wedi'i achosi gan oediadau cyn trosglwyddo a diffyg cyllid ychwanegol sydd ar gael gyfyngu ar allu'r Ymddiriedolaeth i gefnogi ei chynlluniau moderneiddio gwasanaethau**.

55 Parhaodd yr Ymddiriedolaeth ei hanes da o gyflawni ei hamcanion a'i dyletswyddau ariannol ar gyfer 2022-23 ac ar gyfer cyfnod tair blynedd treigl 2020-21 i 2022-23. Mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn i gyflawni ei dyletswyddau ariannol yn 2023-24.

[5] Cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol.

56 Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau cadarn ar gyfer cynllunio ariannol, sy'n nodi risgiau a materion allweddol yn eglur. Roedd gan yr Ymddiriedolaeth fwlch arbedion ar adeg cymeradwyo ei chynllun ariannol ond llwyddodd i nodi'r arbedion angenrheidiol i lenwi'r bwlch hwn erbyn mis pedwar. Fodd bynnag, mae lefel yr arbedion anghylchol yng nghynllun yr Ymddiriedolaeth yn destun gofid, sydd, ynghyd ag aneffeithlonrwydd parhaus wedi'i achosi gan oediadau yn trosglwyddo o ambiwlansys ac anawsterau yn cael gafael ar gyllid ychwanegol, yn cyfyngu gallu'r Ymddiriedolaeth i ariannu'r newid trawsnewidiol y mae'n ei geisio.

57 Ceir trosolwg ariannol rheolaidd ar lefelau gweithredol a bwrdd. Mae adroddiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth fwyaf cyfredol, er ein bod yn nodi y gallai adroddiadau arbedion gynnig mwy o eglurder ynghylch a yw arbedion yn gylchol neu'n anghylchol. Mae'n rhaid hefyd i'r Ymddiriedolaeth gadw pwyslais ar sicrhau bod diweddariadau llafar i'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad yn rhoi digon o eglurder o gofio na all aelodau baratoi cwestiynau cyn cyfarfodydd.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

**Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf**

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth ers ein hadroddiad blaenorol.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2023 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf 2023 |
| Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol | Ionawr 2024 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adroddiad Briffio ar Ddata ynghylch Gweithlu'r GIG | Medi 2023 |
| Adolygiad o Drefniadau Cynllunio'r Gweithlu | Hydref 2023 |
| Asesiad Strwythuredig 2023 | Tachwedd 2023 |
| **Arall** | |
| Cynllun Archwilio Amlinellol 2023 | Mawrth 2023 |

Roedd fy rhaglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol yn 2023 yn cynnwys adolygiadau a oedd yn canolbwyntio ar y GIG a phynciau ar gyfer y sector cyhoeddus cyfan. Mae'r astudiaethau hyn fel arfer yn cael eu hariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac fe'u cyflwynir i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gefnogi ei waith craffu ar wariant cyhoeddus. Mae adroddiadau ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

**Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo**

Mae nifer o archwiliadau perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt neu yn yr Ymddiriedolaeth. Dangosir y rhain yn y tabl canlynol, gyda'r dyddiadau tybiedig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau tybiedig |
|---|---|
| Adolygiad o Effeithlonrwydd Ariannol | Ebrill 2024 |
| Trefniadau Llywodraethu Ansawdd – dilynol | Mehefin 2024 |
| Adolygiad o Ofal Heb ei Drefnu | Gorffennaf 2024 |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Nododd Cynllun Archwilio 2023 y ffi archwilio arfaethedig o £188,424 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn cyd-fynd â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau archwilio cyfrifon

Gwnaeth fy Nghynllun Archwilio 2023 nodi'r risgiau o gamddatganiad perthnasol a/neu afreoleidd-dra ar gyfer archwilio cyfrifon 2022-23 yr Ymddiriedolaeth. Mae'r tabl isod yn rhestru'r risgiau hyn ac yn nodi sut yr aed i'r afael â nhw fel rhan o'r archwiliad.

**Arddangosyn 4: archwilio cyfrifon – risgiau sylweddol**

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae'r risg o wrthwneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrthwneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; a<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau sylweddol y tu hwnt i gwrs busnes arferol. | Ni chanfu'r gwaith archwilio ar gofnodion cyfnodolion ac amcangyfrifon cyfrifyddu unrhyw dystiolaeth o wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, a rhoddodd sicrwydd bod y cyfrifon yn rhydd o wallau perthnasol. |
| Mae risg y byddwch yn methu â chyflawni eich dyletswydd ariannol gyntaf i fantoli'r cyfrifon hyd yn oed dros gyfnod o dair blynedd. Rydych wedi adrodd gwarged diwedd blwyddyn o £62,000. Mae hyn, ynghyd â'r ffigurau alldro ar gyfer 2020-21 a 2021-22, yn dangos gwarged tair blynedd o £207,000.<br>Mae eich pwysau ariannol presennol yn cynyddu'r risg y gallai dyfarniadau ac amcangyfrifon rheolwyr gael eu rhagfarnu mewn ymdrech i gyflawni'r ddyletswydd ariannol.<br>Ceir perygl hefyd o gamddatganiad perthnasol oherwydd twyll o ran cydnabod gwariant ac felly mae'n cael ei drin fel risg sylweddol. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• cyflawni profion manwl ar sampl o drafodiadau allweddol cyn ac ar ôl diwedd y flwyddyn i sicrhau eu bod yn destun cyfrifyddu yn y cyfnod cyfrifyddu priodol; a<br>• chyflawni profion manwl ar sampl o falansau diwedd blwyddyn i sicrhau eu bod yn briodol a chyflawn. | Rhoddodd y gwaith archwilio sicrwydd bod y cyfrifon yn rhydd o wallau perthnasol a bod y sefyllfa gwarged diwedd blwyddyn ar gyfer 2022-23 yn briodol. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae’r risg hon wedi’i chanolbwyntio ar drafodiadau cyn ac ar ôl diwedd y flwyddyn, a balansau diwedd blwyddyn allweddol, yn ymwneud â gwariant nad yw ar gyflogau â chyrff y tu allan i GIG Cymru a Llywodraeth Cymru. | | |

**Arddangosyn 5: archwilio cyfrifon – meysydd eraill o bwyslais**

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a’r canlyniad |
|---|---|---|
| Mabwysiadwyd safon gyfrifyddu newydd, IFRS16 Prydlesi, gan y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol ar gyfer 2022-23.<br>Bydd IFRS16 yn newid yn sylweddol sut y cyfrifyddir asedau prydles gan y bydd angen cydnabod asedau prydles fel asedau a rhwymedigaethau yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.<br>Hefyd, ceir gofynion datgelu ychwanegol sylweddol sy'n benodol i asedau prydles y bydd angen eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• ystyried cyflawnrwydd y portffolios prydlesi a nodwyd gan yr Ymddiriedolaeth y mae angen eu cynnwys mewn cyfrifiadau IFRS16;<br>• adolygu sampl o werthoedd asedau a rhwymedigaethau wedi'u cyfrifo a sicrhau bod y rhain wedi cael eu cyfrifyddu a'u datgelu yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifon; a<br>• sicrhau bod pob datgeliad perthnasol wedi’i wneud. | Cadarnhaodd y gwaith archwilio bod y datgeliadau yn y rhan hon o’r cyfrifon yn gyflawn a chywir yn berthnasol, heb unrhyw broblemau sylweddol yn codi. |
| Cynhaliwyd prisiad pum-mlynyddol ystâd y GIG ar 1 Ebrill 2022.<br>Ceir risg nad yw gwerth asedau’n cael eu nodi ar sail briodol ac nad yw newidiadau i werthoedd cario ymlaen asedau yn cael eu cyfrifyddu a’u datgelu’n briodol.<br>O ystyried yr hinsawdd economaidd bresennol, mae risg arall bod gwerthoedd cario asedau ymlaen wedi | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• ystyried priodoldeb gwaith Asiantaeth y Swyddfa Brisio fel arbenigwr rheoli;<br>• profi priodoldeb seiliau prisio asedau;<br>• adolygu sampl o newidiadau i werthoedd cario ymlaen i sicrhau bod newidiadau wedi cael eu cyfrifyddu a’u | Rhoddodd y gwaith archwilio sicrwydd bod cofnodion cyfrifyddu yn deillio o’r prisiad pum-mlynyddol wedi cael eu datgelu’n briodol yng nghyfrifon 2022-23. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| newid yn ystod 2022-23 a bod prisiadau 1 Ebrill 2022 yn cael eu cam-ddatgan yn berthnasol ar ddyddiad y fantolen. | datgelu yn unol â'r Llawlyfr Cyfrifon; ac<br>• ystyried a yw gwerth cario asedau ymlaen ar 1 Ebrill 2022 yn parhau i fod yn berthnasol briodol, neu a oes angen addasiadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn oherwydd effaith yr amgylchiadau economaidd presennol. | |
| Ceir buddsoddiad sylweddol mewn prosiectau cyfalaf a risg bod gwariant cyfalaf a ddosbarthwyd fel Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu wedi'i gam-ddatgan yn berthnasol:<br>• adroddwyd mai £12.5 miliwn oedd gwariant cyfalaf hyd at fis 11, yn cynyddu i £29.1 miliwn hyd at fis 12;<br>• ar ddiwedd y flwyddyn, ceir balansau o £25.5 miliwn wedi'u dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Hadeiladu, â thrydydd partïon yn meddu ar gerbydau sy'n cael eu hadeiladu; ac<br>• mae angen elfen o grebwyll wrth benderfynu ar gyfanswm y costau i'w cyfalafu ar bob prosiect a phrisio'r asedau hyn ar ddiwedd y flwyddyn. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• deall y rhesymau am y brig mewn gwariant cyfalaf ym mis 12 ac asesu'r effaith ar ddull archwilio;<br>• cynnal profion manwl ar sampl o ychwanegiadau a chroniadau cyfalaf;<br>• adolygu, ar gyfer cerbydau sy'n cael eu hadeiladu gan drydydd partïon, y telerau cytundebol ac yn asesu a yw'r meini prawf ar gyfer cydnabod yr asedau wedi cael eu bodloni; ac<br>• adolygu a herio pa un a oes angen amhariad ar unrhyw asedau sy'n cael eu hadeiladu. | Rhoddodd y gwaith archwilio sicrwydd bod gwariant cyfalaf wedi'i gofnodi a'i ddatgelu yn briodol yng nghyfrifon 2022-23. |
| Roedd problemau y llynedd gyda chyflawnrwydd gwarediadau asedau yn y datganiadau ariannol. Dilëwyd asedau nad oedd yn cael eu defnyddio mwyach o Eiddo, Offer a Chyfarpar ac Asedau Anniriaethol. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu eich trefniadau ar gyfer nodi gwarediadau; a<br>• chynnal profion manwl i sicrhau bod gwarediadau asedau yn gyflawn. | Rhoddodd y gwaith archwilio sicrwydd bod gwarediadau asedau yn y cyfrifon yn gywir ac yn gyflawn yng nghyfrifon 2022-23. |

| Risg archwilio | Ymateb archwilio arfaethedig | Gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| Mae ffynhonnell allweddol o ansicrwydd amcangyfrif yn ymwneud â'r ddarpariaeth ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol ac anaf personol.<br>Mae natur wrthrychol y darpariaethau hyn a dyfarniadau cysylltiedig yn arwain at fwy o risg. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• cynnal profion manwl ar sampl o hawliadau;<br>• gwerthuso rhesymoldeb tybiaethau a dyfarniadau allweddol; ac<br>• ystyried gwaith Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg ac Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG fel arbenigwr rheoli. | Rhoddodd y gwaith archwilio sicrwydd ynghylch rhesymoldeb a datgeliad rhwymedigaethau o'r fath yng nghyfrifon 2022-23. |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.